



Cyfleoedd i ddysgu ieithoedd – canllaw i fyfyrwyr a rhieni

Llwybrau at Ieithoedd Cymru

Cynnwys

Pam ieithoedd?	
Rhai ffeithiau a ffigyrau	1
Graddau arbenigol mewn ieithoedd	2
Graddau cyfun a chydanhedd	4
Dechreuwyd	6
Cyrsiau byr a modiwlau	6
Pa lefel sy'n briodol i chi?	6
Dewisiadau astudio neu weithio dramor	8
Gweithgareddau allgyrsiol yn ymwneud ag ieithoedd	8
Eisiau rhagor o wybodaeth?	10

Am ragor o wybodaeth, ac i dderbyn copiâu ychwanegol o'r canllaw hwn a'r nodiadau i athrawon am ddim, e-bostiwch:

routescymru@ciltcymru.org.uk

Cyfleoedd yn y Brifysgol

Mae sgiliau iaith mor bwysig yn y byd yr ydym yn rhan ohono heddiw, ac nid oes yn rhaid i chi fod yn rhugl i brofi'r manteision – mae gwybod rhywfaint, hyd yn oed, yn gallu mynd ymhell a chynnig nifer o gyfleoedd o ran astudio ymhellach a'ch gyrfa.

Mae'r llyfryn hwn yn dweud y cyfan wrthydd chi am yr ystod eang o gyfleoedd yn gysylltiedig ag ieithoedd sydd ar gael i chi yn y brifysgol. I'ch galluogi i fynd at yr wybodaeth yn hawdd, mae'r rhain wedi eu rhannu i'r rhai ar gyfer graddau arbenigol, graddau cyfun a chydanhedd, cyfleoedd i ddechreuwyd, cyrsiau byr a modiwlau, a dewisiadau o ran astudio dramor. Cofiwch, er hynny, fod y cyfleoedd hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd neu'n gorgyffwrdd.

Wedi'i gynnwys hefyd mae profiadau myfyrwyr sydd wedi astudio ieithoedd mewn ffyrdd gwahanol, a nifer o enghreifftiau penodol o ddewisiadau o ran astudio mewn prifysgolion yng Nghymru. Os ydych chi'n bwriadu astudio y tu allan i Gymru, bydd y rhain yn rhoi syniad da i chi o'r hyn a allai fod ar gael mewn prifysgolion sydd o ddiddordeb i chi. Mae'r prifysgolion sydd dan sylw yn y canllaw hwn yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth ieithoedd yn ychwanegol ar yr enghreifftiau a amlinellir, felly cymerwch olwg ar eu prospectysau neu eu gwefannau i gael rhagor o wybodaeth. Gallwch hefyd ddod o hyd i restrau llawn o gyrsiau ar wefan UCAS (Y Gwasanaeth Derbyniadau i Brifysgolion a Cholegau) www.ucas.com

Yng nghefn y llyfryn hwn, fe welwch chi restr ddefnyddiol o sefydliadau a ffynonellau gwybodaeth.

Felly, pam ddylech chi ddarllen y canllaw hwn?

Darllenwch y llyfryn hwn yn ofalus iawn – efallai y cewch chi eich synnu o ddeall sawl ffordd y gallwch chi astudio iaith yn y brifysgol! Cymerwch olwg ar y ffyrdd gwahanol y gallwch gael (neu feithrin) eich sgiliau iaith, a meddylwch sut y gallai hyn fod o fudd i chi yn y dyfodol. Os nad ydych wedi ystyried hyn yn flaenorol, nawr yw'r amser i wneud hynny!

Mae rhaglen Llwybrau at Ieithoedd Cymru yn cael ei chyllido gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Fel rhan o'r rhaglen, mae consortiwm wedi cael ei sefydlu i hwyluso cydweithio rhwng grwpiau o brifysgolion ac ysgolion a cholegau, i feithrin brwdfrydedd ac annog pobl i astudio ieithoedd.

Daw hyn â Chymru'n gydradd â Lloegr, lle mae naw consortiwm rhanbarthol yn dod i ddiwedd eu prosiectau tair blynedd erbyn hyn.

Arweinir Consortiwm Llwybrau at Ieithoedd Cymru gan CILT Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

Cydnabyddiaeth

Addaswyd yr arweiniad hwn ar sail canllaw Llwybrau at Ieithoedd Gorllewin Canolbarth Lloegr, gyda chaniatâd caredig Consortiwm Llwybrau at Ieithoedd Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Pam ieithoedd? Rhai ffeithiau a ffigyrau

Nid oes amheuaeth fod deall hyd yn oed ychydig ar iaith yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr – nid oes yn rhaid i chi fod yn rhugl i weld manteision sgiliau iaith.

Yn ein heconomi fyd-eang a'n cymdeithas amlieithog, pa bynnag yrfa y byddwch yn ei dewis, bydd sgiliau iaith o fantais, ac fe fyddan nhw'n agor cyfleoedd na fyddai wedi bod yno fel arall, o bosibl.

Nid o ran eich gyrfa yn unig y byddech chi ar eich ennill. Gall ieithoedd eich helpu chi i deithio, cyfathrebu, gwerthfawrogi diwyllianau eraill a llawer mwy drwy gydol eich bywyd. Mewn byd lle mae technoleg wedi symleiddio cyfathrebu dros y byd, gall sgiliau ieithyddol agor posibiliadau di-ben-draw.

Parhewch i ddarllen i gael rhagor o ffeithiau a ffigyrau ...

- Mae dros 500 o gwmnïau sy'n eiddo i berchnogion tramor yng Nghymru, ac mae nifer o gwmnïau eraill o Gymru'n cynnal eu busnes dramor. Maen nhw'n aml yn ceisio recriwtio pobl gyda sgiliau ieithoedd tramor.
- Fel cenedl ddwyieithog, mae Cymru'n dechrau o sefyllfa gadarnhaol, oherwydd darperir addysg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gan hynny, mae gan bobl ifanc fantais o ran datblygu sgiliau iaith a llythrennedd y gallan nhw eu cymhwyso'n hawdd i ieithoedd eraill yn Ewrop a'r byd. (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010)



- Mae ymchwil wedi dangos fod defnyddio sgiliau iaith ym myd busnes yn agor y drws i ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol a phersonol (Languages Work, 2010)

- Wyddech chi fod asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y Llywodraeth angen pobl sy'n gallu siarad ieithoedd o bob rhan o'r byd? Allech chi fod y James Bond nesaf?
- Tsieinëeg (Mandarin) yw'r iaith sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr brodorol yn y byd, a hi yw un o chwe iaith swyddogol y Cenhedloedd Unedig.
- Mae 74% o fusnesau'r Deyrnas Unedig angen sgiliau sgwrsio mewn iaith dramor i helpu i feithrin cysylltiadau busnes (Arolwg Addysg a Sgiliau'r CBI, 2009)



Ieithyddion enwog – rydych chi mewn cwmni da!

Mae Barack Obama yn siarad Bahasa, iaith Indonesia a Malaysia... sgil hanfodol i wella cysylltiadau rhyngwladol.

Mae Gwyneth Paltrow yn gallu siarad Sbaeneg yn rhugl, ac mae Kate Beckinsale yn siarad pedair iaith, gan ei bod hi'n gallu siarad Saesneg, Almaeneg, Rwsieg a Ffrangeg yn rhugl.

Mae'r Farwnes Eluned Morgan, cyn ASE ac Athro Anrhydeddus yn Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd Caerdydd, yn siarad Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg a Sbaeneg. Tra'r oedd hi'n gweithio yn Senedd Ewrop, darganfu'r Farwnes Morgan fod ei sgiliau ieithyddol yn ddefnyddiol, a rhoddodd fantais iddi o ran cyswllt personol, yn enwedig yn yr amgylchedd anffurfiol lle cynhaliwyd nifer o drafodaethau ynghylch polisi. Mae hi'n credu fod dysgu ieithoedd heddiw, yn fwy nag erioed, yn sgil werthfawr.

Astudiodd y comediwr Rhod Gilbert Ffrangeg, Sbaeneg a Lladin at Lefel A a Ffrangeg a Sbaeneg yn y Brifysgol. Mae Rhod yn teimlo fod dysgu ieithoedd eraill yn ehangu eich geirfa, ac yn eich gwneud chi'n fwy hyderus o ran ysgrifennu a siarad, sy'n rhan hanfodol o'i swydd. Mae'n credu mai'r peth gorau am ddysgu iaith arall yw'r teimlad a gewch chi pan ewch chi i'r wlad honno o allu siarad gyda'r bobl rydych chi'n eu cyfarfod heb deimlo cywilydd, euogrwydd, lletchwithdod na gweld eich hunan yn ffôl. Mae'r hyder y mae hyn yn ei roi i chi yn wych.

Mae Dave Jones, cyn-reolwr Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, yn siarad rhywfaint o Gantoneg a Ffrangeg. Er bod Dave yn dweud fod y rhwystr ieithyddol yn fychan ym myd pêl-droed, gan fod cyfathrebu'n tueddu i fod yn weledol yn hytrach nag ar lafar, yr oedd yn ddefnyddiol dysgu sut i gyfarch chwaraewyr eraill. Darganfu hefyd fod agwedd y chwaraewyr tuag ato yn newid, a helpodd hynny ef i integreiddio'n well.



- Nid yw 75% o boblogaeth y byd yn siarad Saesneg

Ydych chi eisiau arbenigo mewn ieithoedd yn y brifysgol?

Graddau Arbenigol mewn Ieithoedd

Efallai y penderfynwch chi arbenigo mewn astudio un neu nifer o ieithoedd yn y brifysgol.

Yng Nghymru, mae nifer o brifysgolion (Prifysgol Bangor, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd) yn cynnig dewis o raddau **anrhydedd sengl** ym meysydd pwnc Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg a Tsieinëeg Mandarin.

Gallwch hefyd gyfuno ieithoedd gwahanol! Mae cyrsiau sy'n **cyfuno dwy neu dair iaith** ar gael ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth a'r Brifysgol Agored.

Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau iaith arbenigol yn para am bedair blynedd, ac maen nhw'n cynnwys blwyddyn orfodol dramor.

Er y bydd nodweddion penodol pob gradd yn amrywio o brifysgol i brifysgol, mae'r wybodaeth isod yn rhoi syniad i chi o beth allai fod yn rhan ohonyn nhw.

Gofynion Mynediad

- Mae'r pwyntiau sydd eu hangen yn amrywio rhwng prifysgolion
- Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n ofynnol cael lefel A, yn aml gyda lleiafswm gradd wedi'i nodi, mewn un neu ragor o'r ieithoedd targed
- Mae cymwysterau cywerth, fel y Fagloriaeth Ryngwladol, yn cael eu derbyn fel arfer

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnig gradd mewn Astudiaethau Tsieineaidd, sy'n cynnwys elfennau o iaith a diwylliant, ynghyd â blwyddyn yn Tsieina. Mae'r cwrs yn darparu amrywiaeth o fframweithiau methodoleg a dadansoddi i astudio'r Tsieinëeg, ei diwylliant a'i chymdeithas yn y gorffennol a'r presennol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ieithyddol mewn Mandarin a Tsieinëeg Llenyddol, sy'n galluogi defnyddio'r sgiliau hynny wrth ddysgu ac ymchwilio, ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymgyswrtio â thrafodaethau academaidd ar faterion allweddol mewn Astudiaethau Tsieinëeg o safbwyntiau disgyblaethol gwahanol, gan gynnwys hanes, cymdeithaseg, athroniaeth, anthropoleg, gwleidyddiaeth a llenyddiaeth. Mae'r flwyddyn yn Tsieina yn cynnig cyfleoedd i'r myfyrwyr wella eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy gyswllt uniongyrchol ag iaith a diwylliant Tsieina, a'u trwytho nhw yn yr elfennau hynny.

Astudiaeth Achos - Jessica Forse

Mae dysgu ieithoedd ym Mhrifysgol Abertawe wedi agor cymaint o ddrysau i mi. Astudiais fy nghwrs israddedig, BA Ffrangeg a Sbaeneg gyda Phortwgeeg, yn Abertawe, ac roedd y flwyddyn dramor yn enwedig yn brofiad gwych ac amhrisiadwy o ran dysgu ieithoedd a phrofiadau bywyd. Treuliais saith mis ger Montpellier yn ne Ffrainc fel Cynorthwydd Dysgu i'r Cyngor Prydeinig mewn dwy ysgol uwchradd. Yna, penderfynais dreulio tri mis yn Guadalajara ym Mecsico. Fe wnes i fyw gyda theulu o Mecsico ac astudio ym Mhrifysgol Guadalajara. Ar ôl i mi gwblhau fy nghwrs mewn iaith Sbaeneg a llenyddiaeth a diwylliant Sbaeneg, euthum i Rio de Janeiro yn Brasil i wella fy Mhortwgeeg. Galluogodd yr holl brofiadau hyn fi i ddod yn rhugl yn fy newis o ieithoedd, a helpodd fi i gael sgiliau trosglwyddadwy amhrisiadwy fel hunandibyniaeth, addasu'n dda i newid, a chael dealltwriaeth a golwg o ddifrif ar ddiwylliannau eraill.

Ar ôl cwblhau fy ngradd BA, dechreuais ar fy ngradd MA mewn Cyfieithu gyda Thechnoleg Iaith, hefyd yn Abertawe. Penderfynais wneud MA oherwydd roeddwn eisiau parhau i weithio gyda fy ieithoedd, ac roedd hon yn ffordd dda o arbenigo. Astudiais fodiwlau mewn Ffrangeg Uwch a Chyfieithu Sbaeneg, a dechreuais Rwsieg i ddechreuwyd. Un agwedd ar y cwrs hwn a oedd yn apelio fwyaf ataf i oedd y ffaith fy mod yn gallu dechrau astudio iaith newydd o'r dechrau.

Ar ôl cwblhau fy MA gydag anrhydedd, gwnes rywfaint o waith cyfieithu ar fy liwt fy hunan. Roedd hyn yn amrywio o gyfieithu adroddiadau meddygol i daenlenni ar gydrannau tyrbinau nwy! Roedd y gwaith bob tro'n amrywiol a dweud y lleiaf! Un o fy hoff brosiectau oedd gweithio ar y rhaglenni dogfen 'Amazon with Bruce Parry', a gafodd ei dangos gan y BBC ac ar y Discovery Channel. Roeddwn yn ddigon ffodus i helpu gyda'r cyfieithu ym mhennod 6. Cafodd y dafodiaith frodorol ei chyfieithu i'r Bortwgeeg, ac yna cyfieithais y darnau hynny i'r Saesneg.

Ar ôl cwblhau fy MA, bŵm yn gweithio yn Llywodraeth y Cynulliad, ond teimlais chwithdod heb her y byd academaidd. Dyma pryd y dechreuais feddwl am ddilyn cwrs PhD (Doethur mewn Athroniaeth) gan ddefnyddio fy ieithoedd. Roeddwn yn ddigon ffodus i gael Dyfarniad gan Brifysgol Cymru i dalu am flwyddyn gyntaf fy PhD, gyda chyllid gan yr AHRC (Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau) yn dilyn hynny yn ystod dwy flynedd olaf fy ngwaith ymchwil. Mae fy PhD yn fwy seiliedig ar ieithyddiaeth, ac yn archwilio semanteg prosesau ffurfio geiriau yn yr ieithoedd Románs.



Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig amrywiaeth o raddau cyfun sy'n cynnwys ieithoedd.

Mae'r radd Astudiaethau Ieithoedd Modern, sy'n cael ei darparu drwy amrywiaeth o diwtora wyneb yn wyneb ac ar-lein, yn cyfuno astudio un neu ddwy iaith (Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg) gyda'r iaith Saesneg ac ieithyddiaeth. Gellir cynnwys Eidaleg, Tsieinëeg a Chymraeg hefyd.

Mae'r radd mewn Dyniaethau yn rhoi sylw eang ar y celfyddydau a'r dyniaethau, yn cynnwys hanes, hanes celf, athroniaeth, ysgrifennu creadigol, y clasuron, astudiaethau crefyddol, cerddoriaeth, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg) gyda'r dewis i arbenigo mewn un neu ragor o bynciau, gan gynnwys yr ieithoedd canlynol: Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg.

Mae gradd y Brifysgol Agored yn eich galluogi i gymryd modiwlau o unrhyw bwnc israddedig i ffurfio naill ai gradd Baglor yn y Celfyddydau neu radd Baglor yn y Gwyddorau. Mae'r dewis hynod hyblyg hwn yn eich galluogi i deilwra cymhwyster o amgylch eich diddordebau ac anghenion eich gyrfa.

Cynnwys arferol gradd

- Yn ychwanegol at ddatblygu eich sgiliau iaith, bydd y rhan fwyaf o raddau'n cynnwys elfennau o ddiwylliant, a allai gynnwys meysydd fel llenyddiaeth, gwleidyddiaeth a hanes
- Mewn graddau lle mae 'Astudiaethau' yn rhan o'r teitl, bydd mwy o bwyslais ar elfennau fel diwylliant, llenyddiaeth, gwleidyddiaeth a hanes, ochr yn ochr â dysgu ieithoedd
- Fel arfer, bydd y cyrsiau yn dilyn trefn fodiwlaid
- Fel arfer, bydd rhywfaint o hyblygrwydd o ran y modiwlau y gellir eu dewis, fel y gallwch deilwra eich astudiaethau i agweddau sydd o ddiddordeb i chi
- Gall modiwlau gynnwys pynciau fel: ffilm a sinema; gwleidyddiaeth; y cyfryngau; hanes; diwylliant; cyfieithu; cerddoriaeth

Asesu

- Arholiadau ysgrifenedig a llafar
- Gwaith cwrs
- Aseiniadau cyfieithu
- Traethodau
- Cyflwyniadau
- Gwaith grŵp
- Traethawd hir
- Gwaith prosiect
- Portffolios

Arddull dysgu

- Mae'n debygol y bydd amrywiaeth eang o arddulliau a dulliau dysgu'n cael eu defnyddio, gan gynnwys: darlithoedd; seminarau; tiwtorialau; dosbarthiadau llafar; astudio dan arweiniad; astudio unigol; gweithdai cyfieithu; trafodaethau panel
- Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyfran uchel o'r dysgu yn cael ei gynnal yn yr iaith darged

Astudiaeth Achos - Skie Holden

Roeddwn yn ffodus iawn o gael athro Ffrangeg rhyfeddol yn yr ysgol uwchradd, a ysbrydolodd fi yn y lle cyntaf i ddilyn fy llwybr at ieithoedd. Fy nhaith dramor gyntaf oedd i Baris pan oeddwn yn y chweched dosbarth, ac roedd yn braf cael ein tywys gan rywun oedd wirioneddol yn deall ac yn gwerthfawrogi'r diwylliant. Bryd hynny, roeddwn yn gwybod fy mod i eisio astudio Ffrangeg, ond ni fyddwn wedi breuddwydio bryd hynny y byddwn erbyn hyn yn astudio Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn sylfaenwr a llywydd y gymdeithas Ffrangeg.

Yn yr ysgol, doeddwn i ddim yn hoff iawn o Almaeneg, ac roedd gramadeg yr iaith yn ymddangos yn ddryslyd, ond roeddwn yn benderfynol o roi cynnig arni, felly treuliais fy mlwyddyn allan yn Baden-Württemberg fel au-pair. Ar ôl bod yno am fis yn unig, a gyda dim ond rhestr denau iawn o eirfa Almaeneg, euthum i sgïo gyda'r teulu. Wrth i mi hedfan i lawr y llethr tuag at ffens blastig digon simsan, afraid dweud fy mod i wedi dysgu Almaeneg yn eithaf sydyn, gan nad oeddwn wedi gwneud y gamp hon o'r blaen! Ar ôl naw mis, a heb sylweddoli hynny, roeddwn i bron â bod yn rhugl, ac roedd yr Almaeneg yn ymddangos fel iaith wahanol. Mae'n wych! Felly, dyma gyngor: dim ond ar ôl i chi allu ei siarad hi y dylech chi ddweud pa mor ofnadwy y mae iaith yn swnio, oherwydd fe gewch chi eich siomi ar yr ochr orau, a bod yn onest! Treuliais yr haf a aeth heibio fel au-pair yn ogystal, ond y tro hwn ym Madrid. Roedd fy rheulu'n anhygoel, ac fe wnes i ymweld â nifer o fannau hardd, gweld perfformiad fflamenco a rhoi cynnig ar sawl paella blasus hefyd! Byddwn yn cynghori unrhyw un, cyn i chi golli ffydd mewn dysgu iaith, gan feddwl nad oes diben gwneud hynny, y dylech fynd i'r wlad lle siaredir yr iaith a darganfod beth rydych yn ei golli yn eich gwersi. Mae byd cyfan allan yno, yn llawn o bobl frodorol awyddus, amyneddgar a chyfeillgar sydd eisio siarad gyda chi a rhannu eu straeon, yn union fel rydw i'n rhannu fy stori i. A pheidiwch â phoeni am ddweud pethau'n anghywir, dydyn nhw ddim yn meindio, ac mae arwyddion gyda'ch dwylo, pwyntio a thynnu ystumiau digrif yn gweithio'n dda, hefyd! Rydw i'n gobeithio mynd i ddysgu yn Québec (Canada) yn ystod fy mlwyddyn dramor ym mis Medi, ac ni allaf ddisgwyl am daith a allai fod gyda'r gorau a wnes i erioed yn fy mywyd.

Mae Prifysgol Bangor yn cynnig darpariaeth mewn Iseldireg fel rhan o radd anrhydedd sengl mewn Almaeneg, a Galiseg fel rhan o radd anrhydedd sengl mewn Sbaeneg. Yn ogystal, Bangor yw cartref y Ganolfan Astudiaethau Galisaidd yng Nghymru

Graddau Cyfun a Chydanrhydedd

Os ydych eisiau parhau i ddysgu iaith, neu efallai dechrau astudio un newydd yn y brifysgol, ond nad ydych eisiau arbenigo'n ormodol, efallai y byddai gradd gyfun neu radd gydanrhydedd yn iawn i chi. Mae hyn hefyd yn ffordd ragorol o gyfuno ieithoedd gyda maes pwnc arall, i roi set ategol o sgiliau i chi er mwyn hyrwyddo eich gyrfa yn y dyfodol, a chynnig cyfleoedd na fyddai wedi bod ar gael i chi fel arall, o bosibl. Gall cyfuniadau mwy anarferol eich helpu chi i fod yn fwy amlwg ymysg eich cyd-raddedigion.

Mae nifer o brifysgolion yng Nghymru (Prifysgol Bangor, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a'r Brifysgol Agored) yn cynnig ystod eang o ddewisiadau o ran graddau cyfun a chydanrhydedd.

Mae'r cyfuniadau sydd ar gael yn amrywio o brifysgol i brifysgol, ac fe fyddan nhw'n dibynnu ar gyfyngiadau'r amserlenni, ond er hynny, mae enghreifftiau o'r meysydd pwnc y gellir eu hastudio gydag iaith yn cynnwys:

- | | | |
|-------------------------------------|---|---|
| • Cyfrifeg | chymdeithasol | • Y cyfryngau |
| • Astudiaethau Americanaidd | • Addysg | • Astudiaethau canoloesol |
| • Hanes yr hen fyd | • Saesneg | • Mathemateg |
| • Anthropoleg | • Ieithyddiaeth | • Astudiaethau amgueddfeydd ac orielau |
| • Archaeoleg | • Astudiaethau Ewropeaidd | • Cerddoriaeth |
| • Hanes celf | • Astudiaethau ffilm a theledu | • Athroniaeth |
| • Bancio | • Celfyddyd gain | • Addysg gorfforol |
| • Busnes | • Economeg | • Ffiseg |
| • Y clasuron | • Daearyddiaeth | • Gwleidyddiaeth |
| • Gwyddorau cyfrifiadurol | • Hanes | • Seicoleg |
| • Astudiaethau cyfrifiadurol | • Daearyddiaeth ddynol | • Astudiaethau crefyddol |
| • Y diwydiannau creadigol | • Astudiaethau gwybodaeth a llyfrgelloedd | • Astudiaethau sgrin |
| • Ysgrifennu creadigol | • Gwleidyddiaeth ryngwladol | • TEFL (Dysgu Saesneg fel iaith dramor) |
| • Troseddeg a chyfiawnder troseddol | • Gwyddeleg | • Twristiaeth |
| • Drama | • Y gyfraith | • Cymraeg |
| • Hanes economaidd a | • Rheoli | • Hanes Cymru |
| | • Marchnata | |

Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol, felly holwch y prifysgolion unigol i weld beth maen nhw'n ei gynnig.

Mae Prifysgol Abertawe'n cynnig y graddau iaith canlynol ar y cyd, y cyfan yn para am bedair blynedd:

- Almaeneg gyda Lladin, yr Iaith Roeg, Ffrangeg, Eidaleg neu Sbaeneg
- Ffrangeg gyda Lladin, yr Iaith Roeg, Almaeneg, Eidaleg neu Sbaeneg
- Eidaleg gyda Lladin, Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg
- Sbaeneg gyda Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg neu Ladin

Bydd swm yr amser y byddwch chi'n ei dreulio yn astudio pob pwnc mewn gradd gyfun neu radd gydanrhydedd yn amrywio, ond fel arfer bydd graddau o'r fath naill ai'n rhannu'n gyfartal, neu bydd rhagor o bwyslais ar un maes pwnc.

Mae'r gofynion mynediad yn amrywio, yn dibynnu ar y brifysgol a'r cyfuniad a ddewisir. Yn aml bydd angen gwybodaeth am yr iaith darged a chymwysterau ynddi; er hynny, mae gan rai prifysgolion gyfleoedd i ddechrau dysgu iaith newydd fel rhan o radd gyfun neu radd gydanrhydedd.

Bydd elfennau o'r cynnwys, yr asesu a sut y byddwch yn cael eich addysgu'n adlewyrchu'n fras y rhai sydd mewn graddau arbenigol. O ran cyrsiau'r Brifysgol Agored, bydd dulliau addysgu yn cynnwys dysgu agored, deunyddiau hunan-astudio, cefnogaeth gan diwtor personol, a thiworialau mewn grwpiau cydamseredig, ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Cofiwch – pa bynnag bwnc y byddwch chi'n dewis ei astudio, efallai y bydd yn rhaid i chi fynd ar leoliad gwaith am flwyddyn, neu allu dewis un. Bydd nifer o brifysgolion yn eich galluogi i wneud hyn dramor, a'ch cefnogi gyda'r broses ymgeisio. Mae hwn yn gyfle gwyb i ddefnyddio iaith roeddech chi'n ei hastudio'n flaenorol, ond heb barhau â hi yn y brifysgol, neu i ddysgu iaith newydd. Er enghraifft, ym Mhrifysgol De Cymru, mae pob myfyriwr israddedig yn cael eu hannog i fynd am semester dramor, gyda'r posibilrwydd o gael cyllid drwy gynllun Erasmus.

Astudiaeth Achos - Craig Watson

Mae Craig Watson yn astudio am radd BA mewn Astudiaethau Tsieinaidd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant.

“Yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol uwchradd, roeddwn wedi dechrau astudio Ffrangeg, ond roedd hynny wedi methu ennyn fy niddordeb mewn ieithoedd, a rhoddais y gorau i ddysgu'r iaith pan nad oedd gorfodaeth arnaf i wneud hynny.

Ar ôl astudio Sbaeneg am flwyddyn, penderfynais chwilio am fwy o her, a dewisais astudio Tsieinëeg yn y brifysgol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd pwysigrwydd cynyddol Tsieina yn fyd-eang, a hoffer personol o ddiwylliant a hanes Tsieina. Mae dysgu'r iaith yn anodd a gall fod yn hynod heriol ar adegau, ond y mae hefyd yn rhoi boddhad mawr i chi, ond drwy roi eich holl galon i'r hyn rydych chi'n frwd drosto, gall rhywun oresgyn unrhyw anawsterau yn eu bywydau. Nid yw astudio Tsieinëeg yn gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth, gan fy mod yn un o ddau o fyfyrwyr o'm dosbarth a ddewiswyd i gystadlu yng nghystadleuaeth flynyddol “Chinese Bridge” yn Llundain. Yn y dyfodol, rwy'n gobeithio y byddaf yn cael gwaith yn Tsieina, ond nid ydw i wedi penderfynu ar yr union lwybr gyrfa eto.”

Mae Prifysgol Bangor yn cynnig cyfuniadau o 2 neu 3 iaith. Mae graddau cyfun yn eich galluogi i astudio dwy iaith yn gyfartal. Mae astudio iaith gydag iaith arall yn eich galluogi i astudio un fel prif bwnc (dwy ran o dair) ac un fel iaith atodol (traean).

Mae'r cyfuniadau canlynol ar gael:

- Ffrangeg a/gydag Eidaleg
- Ffrangeg a/gydag Almaeneg
- Ffrangeg a/gyda Sbaeneg
- Almaeneg a/gyda Ffrangeg
- Almaeneg a/gydag Eidaleg
- Almaeneg a/gyda Sbaeneg
- Eidaleg a Sbaeneg

Mae tair rhaglen graddau ieithoedd yn eich galluogi i astudio tair iaith (Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg neu Sbaeneg) mewn dwy ffordd:

- Y tair iaith ar yr un lefel
- Dwy fel prif ieithoedd ac un arall fel iaith atodol

Mae pob cwrs yn para 4 blynedd. Pe bai'r 3 iaith yn cael eu hastudio i'r un lefel, bydd 3 semester yn cael eu treulio mewn prifysgolion y tu allan i'r Deyrnas Unedig, pob un mewn gwlad lle mae un o'r ieithoedd yn cael ei siarad. Gyda'r fformat dwy brif iaith ac un iaith atodol, dau semester sy'n cael eu treulio dramor.

Mae Canolfan Astudiaethau Japaneidd Caerdydd, sy'n rhan o Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, yn cynnig nifer o raddau ar y cyd sy'n cynnwys Japanëeg: Astudiaethau Busnes a Japanëeg; Ffrangeg a Japanëeg; Almaeneg a Japanëeg; Eidaleg a Japanëeg; Sbaeneg a Japanëeg. Yn ystod y cyrsiau, sy'n para am 4 blynedd, bydd pob myfyriwr yn treulio cyfnod yn astudio yn Japan yn ystod y drydedd flwyddyn. Yn ychwanegol at astudio iaith, mae'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn rhoi gwybodaeth helaeth i'r myfyrwyr am agweddau amrywiol ar gymdeithas fodern Japan.

Mae Prifysgol Caerdydd hefyd yn cynnig y cyfle i gyfuno unrhyw ddwy o'r ieithoedd sy'n cael eu cynnig.

Astudiaeth Achos - Bethan Morgan

Dechreuais astudio Ffrangeg pan oeddwn i'n 11 oed, pan oedd yn orfodol i mi wneud hynny yn fy ysgol. O flwyddyn 9, pan oeddwn i'n 13 oed, cawsom y cyfle i ddewis pwnc ychwanegol i'w astudio hyd at TGAU. Dewisais Sbaeneg, a gwyddwn ar unwaith mai dyna oeddwn i eisiau ei wneud yn y coleg ac yn y pen draw yn y brifysgol, a dyna ddigwyddodd. Astudiais radd Sbaeneg anrhydedd sengl ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n cynnwys blwyddyn dramor yn y drydedd flwyddyn. Rwyf wedi dewis bod yn gynorthwydd dysgu iaith yn Sbaen drwy'r Cyngor Prydeinig. Yn fy mlwyddyn gyntaf yn y brifysgol, dysgais y Gymraeg fel pwnc ychwanegol, gan ennill cymhwyster cyfwerth â TGAU, ac yn fy ail flwyddyn, un o fy modiwlau oedd Catalaneg. Cyn dechrau yn y brifysgol, roeddwn yn methu penderfynu beth i'w astudio - roedd yn ddewis rhwng Seicoleg (yr oeddwn wedi dechrau ei astudio yn y coleg) a Sbaeneg, yr oeddwn wedi bod yn ei astudio am bum mlynedd. Ond ar ôl bod mewn diwrnod agored yma yng Nghaerdydd, nid oedd amheuaeth pa bwnc y byddwn yn ei astudio. Fe wnaeth y cyfleusterau a'r cyfle i astudio dramor, yn ogystal â nifer fawr o ragolygon gyrfa, fy narbwyllio mai Sbaeneg oedd yr unig ddewis. Rydw i'n gobeithio mynd yn fy mlaen i astudio am radd meistr, o bosibl mewn cyfieithu, i gael rhagor o gymwysterau ym myd ieithoedd.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig cyfuniadau o ieithoedd gwahanol, ynghyd ag amrywiaeth eang o bynciau eraill y gellir eu cyfuno ag iaith. Yn dibynnu ar y pwnc penodol a'r iaith, gallai'r cydbwysedd fod ar raddfa 60%/40% neu'n radd gydanrhydedd (50%/50%). Mae'r pynciau'n cynnwys Hanes Celf, Gwyddorau Cyfrifiadurol, Addysg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Ffiseg a Thwristiaeth.

Mae Aberystwyth hefyd yn cynnig graddau 4 blynedd mewn ieithoedd Ewropeaidd, sy'n cyfuno astudio Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Sbaeneg. Bydd dwy o'r ieithoedd hyn yn cael eu hastudio fel prif ieithoedd ac un arall fel iaith atodol. Bydd y drydedd flwyddyn yn cael ei threulio dramor, gyda'r amser fel arfer yn cael ei rannu rhwng dwy wlad.

Mae'r radd unigryw mewn ieithoedd Románs yn cyfuno astudio hyd at dair iaith Románs (Ffrangeg, Sbaeneg neu Eidaleg), gyda'r dewis o astudio un neu ddwy ar lefel dechreuwr.

Astudiaeth Achos - Adrian Evans

"Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi cwblhau nifer o fodiwlau'r Brifysgol Agored yn rhan amser, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gerddoriaeth. Gan fy mod i wedi cael 300 credyd yng Nghyfadran y Celfyddydau, roeddwn i angen 60 credyd arall i gael fy ngradd BA (Anrhydedd) yn y Dyniaethau. Dewisais astudio Almaeneg, nid yn unig i ategu fy nghysiaid yn y Celfyddydau ond hefyd gan fy mod i'n hoffi dysgu ieithoedd newydd. Rydw i hefyd yn credu y dylai rhywun bob amser geisio dysgu rhai o ymadroddion yr iaith pan fyddwch yn ymweld â gwlad arall.

Roedd gen i ychydig o Almaeneg, gan i mi gael fy ngeni yn yr Almaen i rieni o Brydain, ond nid oeddwn yn teimlo fy mod yn barod i ddechrau ar y lefel ganolradd. Gan hynny, cymerais y modiwl 30-credyd Almaeneg i ddechreuwr llynedd, ac ar hyn o bryd rwy'n dilyn y modiwl canolradd 30-credyd, a fydd yn cwblhau fy ngradd BA (Anrhydedd).

O ran astudio gyda'r Brifysgol Agored, ni chefais i erioed y cyfle i gwblhau addysg lawn amser gonfensiynol oherwydd bwllo. Mae astudio gyda'r Brifysgol Agored wedi rhoi'r cyfle i mi brofi i mi fy hunan fy mod i'n gallu cyflawni fy mhotensial yr un mor llawn â phawb arall. Os oes rhywun yn meddwl bod astudio gyda'r Brifysgol Agored yn ddewis "hawdd", maen nhw'n gwneud camgymeriad mawr. Mae'n cymryd gwaith caled, dyfalbarhad a llawer o benderfyniad."

Ydych chi eisiau dysgu iaith newydd, neu astudio iaith yn eich amser hamdden neu fel rhan o'ch astudiaethau eraill?

Dechreuwr

Os nad ydych wedi astudio iaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, neu os ydych chi eisiau dechrau astudio iaith arall o'r newydd, mae nifer o gyfleoedd i ddechreuwr, sydd hefyd yn cael eu galw'n ddysgwyr ab initio, mewn prifysgolion drwy Gymru gyfan a gweddill y Deyrnas Unedig. Pa bynnag faes pwnc rydych chi'n ei ddewis, mae'n aml yn bosibl astudio iaith fel rhan o'ch gradd neu'n allgyrsiol. Mae cyfleoedd i ddechreuwr fel arfer yn cael eu cynnig ar ffurf modiwlau neu gyrsiau byr – ceir rhagor o wybodaeth am y rhain isod. Byddwch yn ymwybodol y codir tâl am rai modiwlau a chysiau.

Cyrsiau byr a modiwlau

Mae Cyrsiau byr a modiwlau (sy'n aml yn cael eu galw'n fodiwlau 'Annibynnol') yn galluogi nifer o fyfyrwyr, bynnag beth yw eu pwnc, i astudio iaith fel rhan o'u cwrs neu'n allgyrsiol. Pa un ai dysgwr ab initio ydych chi neu'n ieithydd medrus, mae cyfleoedd yn debygol o fod ar gael i chi.

Mae nifer o brifysgolion yng Nghymru (Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, y Brifysgol Agored, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor) yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau byr a modiwlau mewn nifer o ieithoedd.

Pa lefel sy'n iawn i chi?

Mae modiwlau iaith a chysiau byr ar gael ar lefelau gwahanol, fel arfer yn amrywio o ddechreuwr llwyr (ab initio) i rai canolradd ac uwch, sy'n eich galluogi i fanteisio ar gyfleoedd beth bynnag yw lefel eich gallu. Mae cywerthedd y lefelau hyn, y gofynion mynediad a hyd yr amser sydd ei angen i'w cwblhau yn amrywio o brifysgol i brifysgol, felly mae'n werth holi.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y cyfleoedd penodol sydd ar gael yn y prifysgolion sydd o ddiddordeb i chi, ewch i'w gwefannau, ewch i ddiwrnod agored, neu cysylltwch â nhw'n uniongyrchol – fe fyddan nhw'n barod iawn i drafod eich dewisiadau gyda chi. Efallai y gwelwch chi y gallwch siarad gyda staff arbenigol yn ystod wythnos y glas fyfyrwyr.

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnal Gweithdy haf dros bythefnos mewn Groeg, Lladin, Lladin Canoloesol a Lladin y Dadeni sy'n agored i bawb. Mae'r rhain yn cael eu cynnig ar bum lefel wahanol:

- Dechreuwyr
- Ôl-ddechreuwyr
- Canolradd
- Canolradd/Uwch
- Uwch

Mae'r holl fodiwlau sy'n cael eu cynnig yn ystod y gweithdy yn cael eu hachredu'n llawn gan y Brifysgol, ac fe ellir eu cymryd fel modiwl sengl neu fel rhan o raglen ehangach. Mae'r cwrs ar gael fel cwrs preswyl neu gwrs dibreswyl.

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnal rhaglenni eang o leithoedd Tramor Modern, mewn amrywiaeth o leithoedd ac ar nifer o wahanol lefelau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ffrangeg
- Sbaeneg
- Almaeneg
- Eidaleg
- Rwsieg
- Japanëeg
- Tsieinëeg
- Iaith Groeg
- Arabeg
- Portwgeeg
- Tyrceg
- Pwyleg

Mae'r cyrsiau hyn yn aml yn cael eu cynnal yn yr iaith darged, ac fe fyddan nhw'n canolbwyntio ar y sgiliau iaith canlynol: siarad, gwrandio, ysgrifennu a darllen. Wrth i chi fynd yn eich blaen a gwella eich sgiliau yn yr iaith, fe gewch chi hefyd gyfle i ddod yn gyfarwydd â diwyllianau gwahanol, a thrwy hynny, datblygu eich dealltwriaeth o'r byd amlddiwylliannol rydym yn byw ynddo.

Yn ogystal, mae Canolfan Dysgu Gydol Oes Prifysgol Caerdydd yn cynnal rhaglen boblogaidd dan y teitl 'leithoedd i bawb', sy'n cynnwys deg iaith yn ystod y dydd a'r nos i weddu pawb (myfyrwyr llawn amser a rhan amser). Dyma hefyd gartref Sefydliad Confucius Caerdydd, sy'n ganolfan Tsieinëeg a diwylliant Tsieina sy'n cael ei chyllido gan lywodraeth Tsieina. Mae cyrsiau'n cael eu hachredu ac mae'r addysgu'n rhoi pwyslais ar sgiliau cyfathrebu a deunydd cyfredol. Yn ogystal, mae dau labordy iaith digidol i fyfyrwyr gael ymarfer rhagor eu sgiliau llafar.

Astudiaeth Achos - Sophie Beresford

Fe wnaeth Sophie Beresford, sy'n meddu ar ddinasyddiaeth ddeuol Prydain a Ffrainc, raddio o Brifysgol Bryste gyda BSc mewn Mathemateg, gyda blwyddyn ar dir mawr cyfandir Ewrop (yr Almaen) yn 2006. Datblygodd Sophie ei rhuglder mewn Almaeneg yn ystod y flwyddyn a dreuliodd yn astudio Mathemateg ym Mhrifysgol Hannover. Yn sgil hynny, dilynodd gwrs Sbaeneg canolradd mewn ysgol ieithoedd rhyngwladol yn Quito yn Ecuador. Yna, treuliodd Sophie flwyddyn ym Madrid yn addysgu Saesneg mewn coleg dwyieithog. Cwblhaodd Sophie MBA ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd ar ôl astudio gradd Sbaeneg Busnes ar lefel uwch o'i dewis ei hun. Dyfarnwyd gradd dosbarth cyntaf i Sophie mewn Sbaeneg Uwch, a chlodd yn ei rhaglen MBA.

"Rwy'n defnyddio fy ieithoedd yn y gwaith bob dydd. Er 2009 rwyf wedi bod yn gweithio yn Salzhemmendorf, ger Hannover, i gwmni rhyngwladol sy'n gwneud coluron organig. Rwy'n gweithio fel Rheolwr Gwerthu gan ganolbwyntio ar farchnata rhwng busnesau, a'm prif gyfrifoldebau yw cyflenwi cynnyrch i'r Unol Daleithiau, Canada, Ffrainc, Sbaen a'r Deyrnas Unedig. Roedd fy ieithoedd a'm gradd MBA o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yn bwysig iawn i sicrhau fy swydd bresennol, sy'n fy ngalluogi i ddefnyddio fy sgiliau a'm cymwysterau'n llawn. Ar hyn o bryd rwy'n datblygu strategaeth i gryfhau cysylltiadau busnes ag America Ladin"

Mae Ysgol Ieithoedd Modern ac Ysgol Dysgu Gydol Oes Prifysgol Bangor yn cynnig cyfres o ddosbarthiadau nos byr sy'n cynnwys amrywiaeth o gyrsiau I I wythnos i ddechreuwyr a galluoedd canolradd. Gellir cymryd y modiwlau hyn hefyd fel rhan o raglenni gradd. Mae israddedigion Prifysgol Bangor yn cofrestru ar gyfer y cyrsiau fel rhan o'r brif broses gofrestru drwy'r Ysgol Ieithoedd Modern. Mae'r cyrsiau yn cynnwys:

- Almaeneg, Sbaeneg, Ffrangeg ac Eidaleg i ddechreuwyr
- Almaeneg a mwy, Sbaeneg a mwy, Ffrangeg a mwy ac Eidaleg a mwy i ddechreuwyr
- Sbaeneg, Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg canolradd
- Sbaeneg a mwy, Almaeneg a mwy, Sbaeneg a mwy, Ffrangeg a mwy, ac Eidaleg a mwy

Dewisiadau astudio a gweithio dramor

Mae astudio neu weithio dramor fel rhan o'ch astudiaethau yn y brifysgol yn ffordd wych o feithrin eich sgiliau iaith, trwytho eich hunan yn y diwylliant, cwrdd â phobl newydd ac ychwanegu at eich CV. Nid oes ffordd well o ddysgu rhagor am ieithoedd a diwylliannau na chael eich amgylchynu ganddyn nhw!

Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion sy'n cynnig graddau neu gyrsiau sy'n gysylltiedig ag ieithoedd, a hyd yn oed y rhai nad ydyn nhw'n gwneud hynny, hefyd yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio neu weithio dramor.

Os byddwch yn penderfynu astudio gradd arbenigol mewn iaith, cyfuno ieithoedd neu astudio iaith fel rhan o radd gyfun neu radd gydanhrydedd gyda phwnc arall, fe welwch chi fod nifer o brifysgolion yn gofyn i chi dreulio blwyddyn orfodol dramor ar leoliad. Mae'r mathau hyn o gyrsiau fel arfer yn para am 4 blynedd (gyda'r drydedd flwyddyn yn cael ei threulio dramor). Mae blyneddau ar leoliad yn aml yn cynnwys mynychu prifysgol fel myfyrwr, cynnal lleoliad gwaith neu gynorthwyo mewn ysgol. Fe fydd yn rhaid i chi dreulio'r flwyddyn mewn gwlad lle siaredir yr iaith darged, neu fe allwch chi rannu eich amser rhwng dwy wlad os ydych yn astudio dwy iaith. Pan fydd blyneddau lleoliadau tramor yn ddewisol, er hynny, mae'r brifysgol fel arfer yn eu hargymhell yn gryf.

Mae prifysgolion fel arfer yn eich cefnogi chi i drefnu blwyddyn dramor a chadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda chi tra rydych chi yno.

Mae nifer o gyrsiau nad yw ieithoedd yn rhan ohonyn nhw hefyd yn cynnig y cyfle am leoliad gwaith, y gellid ei gymryd dramor o bosibl.

Lleoliadau Erasmus

Mae nifer o brifysgolion Cymru yn rhan o Raglen Erasmus y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cynnig cyfle i fyfyrwyr Addysg Uwch sy'n astudio yn y Deyrnas Unedig astudio neu weithio mewn gwlad Ewropeaidd arall, ac maen nhw'n darparu cyllid i gefnogi hyn.

Mae cyfleoedd yn cynnwys lleoliadau symudedd astudio a lleoliadau gwaith.

Mae lleoliadau symudedd astudio Erasmus yn para rhwng 3 mis a blwyddyn, a gellir eu cymryd unrhyw dro yn ystod eich gradd, ac eithrio yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac fe fyddan nhw'n ddibynol ar strwythur eich cwrs a threfniadau eich prifysgol.

Gellir cymryd lleoliadau gwaith unrhyw dro yn ystod eich cwrs, gan gynnwys yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac fel arfer fe fyddan nhw'n para rhwng 3 mis a 12 mis. Fe allai fod yn bosibl cyduno cyfnod astudio gyda lleoliad gwaith.

Am ragor o wybodaeth ynghylch Erasmus, ewch i: www.britishcouncil.org/erasmus


Allgyrsiol

Mae nifer o brifysgolion yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol yn gysylltiedig ag ieithoedd, gan gynnwys:

- Cymdeithasau iaith (gan gynnwys dangos ffilmiau, cyfarfodydd, trafodaethau, cwisiau, digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol a sesiynau sgwrsio)
- Cymdeithasau Erasmus
- Clybiau iaith
- Gweithdai
- Caffis Cyfnewid Diwylliannol
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith allgymorth

Leonardo

Mae rhaglen Leonardo ar gyfer pobl sy'n ymgymryd â hyfforddiant galwedigaethol fel rhan o'u hastudiaethau neu eu cyflogaeth, ac mae'n gallu cynnig cyfleoedd fel lleoliadau, partneriaethau a phrosiectau ar y cyd drwy Ewrop gyfan. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.leonardo.org.uk.



Cynllun Cynorthwyr Saesneg y Cyngor Prydeinig

Mae cynllun y Cyngor Prydeinig yn rhoi cyfleoedd i weithio fel cynorthwyr iaith mewn ysgolion mewn 17 o wledydd ar hyd a lled y byd. Y nod yw gwella gallu ieithyddol y cynorthwyr a'r myfyrwyr, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Fel arfer, mae Cynorthwyr Saesneg yn israddedigion iaith ar eu blwyddyn dramor neu rai sydd wedi graddio'n ddiweddar mewn pynciau eraill. Mae'n rhaid i chi fod yn siarad Saesneg yn rhugl; wedi cwblhau eich holl addysg uwchradd ac o leiaf ddwy flynedd o addysg uwch yn y Deyrnas Unedig; yn meddu ar y sgiliau iaith gofynnol; yn cwrdd â gofynion y wlad lle byddwch yn mynd. Mae'r gofynion yn wahanol i gynorthwyr sy'n mynd i Tsieina. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.britishcouncil.org/languageassistants


Mae gan nifer o brifysgolion raglenni symudedd eraill a allai fod yn berthnasol i chi. Mae'r rhain yn cynnwys: Prifysgol De Cymru; Prifysgol Caerdydd; Prifysgol Abertawe; Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Prifysgol Bangor; Prifysgol Aberystwyth. Cysylltwch â'r prifysgolion unigol i gael gwybod pa gyfleoedd maen nhw'n eu cynnig, neu cymerwch olwg ar eu gwefannau.

Astudiaeth Achos - Natasha Wright

Mae Natasha Wright ar drydedd flwyddyn gradd mewn Almaeneg a Chymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Mae hi ar ei blwyddyn dramor ar hyn o bryd.

Mae astudio tuag at radd mewn leithoedd Modern wedi bod yn agoriad llygad gwych i mi. Un o'r pethau gorau a gaf o'm hamser yma fydd y cyfle i dreulio hanner blwyddyn mewn gwlad lle siaredir fy iaith darged - Almaeneg. Treuliais yr haf diwethaf yn gweithio ym München yn yr Almaen fel au-pair, a oedd yn un o brofiadau gorau fy mywyd. Gan hynny, roeddwn i'n edrych ymlaen yn fawr at y cyfle i astudio yn Leipzig. Yn fy marn i, cael eich trwytho mewn iaith mewn gwlad lle siaredir hi yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r hyn rydych yn ei wybod yn barod a dod yn rhugl. Rydw i hefyd yn hoffi'r ffaith ei fod yn eich gwneud chi'n wahanol i'r darlun ystrydebol o rywun o Brydain, sy'n tybio fod pawb yn Ewrop yn gallu siarad Saesneg, felly 'beth yw'r pwynt dysgu iaith arall?'

O ganlyniad i astudio at y radd hon, rydw i hefyd wedi cael cyfle i wneud ffrindiau â phob math o bobl o bob rhan o Ewrop, yn bennaf drwy'r cynllun cyfeillio. Mae hyn, yn ogystal â byw dramor, wedi fy ngwneud i'n fwy ymwybodol yn ddiwylliannol ynghylch pa mor wahanol y mae pobl yn byw eu bywydau. Y mae hefyd wedi rhoi'r cyfle i mi deithio rhagor a gweld Ewrop. Rydw i hefyd yn teimlo fy mod i wedi dod yn fwy hyderus fel unigolyn o ganlyniad i feithrin fy sgiliau cyfathrebu mewn dosbarthiadau a seminarau llafar. Fe wnaeth mynd i'r Almaen llynedd i fyw gyda theulu nad oeddwn i wedi eu cyfarfod o'r blaen gynyddu fy hyder ymhellach. Cefais fy ngorfodi, mewn ffordd, i ymarfer fy Almaeneg drwy ei defnyddio ym mywyd bob dydd.



Eisiau rhagor o wybodaeth?

Mae nifer o sefydliadau a ffynonellau gwybodaeth a chynghor a allai eich helpu chi i gael rhagor o wybodaeth am fuddiannau dysgu iaith, a'ch helpu chi i ganfod cwrs sy'n iawn i chi.

Adnoddau dysgu

Mae MYLO yn wasanaeth dysgu ieithoedd ar-lein
www.mylo.dcsf.gov.uk

Mae gwefannau ieithoedd y BBC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau.
www.bbc.co.uk/languages

Gwybodaeth a chynghor

Mae gan CILT Cymru adran benodol ar gyfer dysgwyr ieithoedd.
www.cymraeg.ciltcymru.org.uk/language-learners

Mae gwefan 'Why Study Languages?' yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth i ddysgwyr dros 16 oed, gan gynnwys gwybodaeth am yrfaoedd a chynghorion ar sgiliau astudio. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth i ddysgwyr iau, athrawon, ymgynghorwyr gyrfaedd a rhieni.
www.whystudylanguages.ac.uk

Mae gwefan 'Studying Languages at University' yn cynnig cynghor a gwybodaeth i'r rhai sy'n awyddus i ddysgu ieithoedd ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg.
www.studyinglanguages.ac.uk

Mae gwefan Languages Work yn darparu gwybodaeth am yrfaoedd perthnasol ac amrywiaeth o astudiaethau achos
www.languageswork.org.uk

Cynghor cyffredinol ar brifysgolion

Mae gwefan Direct Gov yn darparu llawer o wybodaeth gyffredinol a chynghor ar astudio yn y brifysgol, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a chyrsgau penodol
www.direct.gov.uk/cy/EducationAndLearning/UniversityAndHigherEducation/index.htm

Mae gwefan UCAS yn cynnwys rhestrau llawn o gyrsgau, ynghyd â gwybodaeth, cynghor ac arweiniad cyffredinol.
wwwucas.ac.uk

Prifysgolion

Prifysgol Bangor
www.bangor.ac.uk

Prifysgol Aberystwyth
www.aber.ac.uk

Prifysgol Glyndŵr
www.glyndwr.ac.uk

Prifysgol Cymru y Drindod
Dewi Sant
www.ydrindoddewisant.ac.uk

Prifysgol Abertawe
www.swan.ac.uk/cy

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
www3.uwic.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
www.cf.ac.uk

Prifysgol De Cymru
www.southwales.ac.uk

Prifysgol Fetropolitan Abertawe
www.smu.ac.uk

Y Brifysgol Agored yng Nghymru
www.openuniversity.co.uk/18to24

Yn ogystal, fe gewch chi amrywiaeth eang o flogiau a thudalennau rhwydweithio cymdeithasol ar ddysgu ieithoedd a bywyd yn y brifysgol.

Yr wybodaeth yn gywir pan aed i'r wasg yn ystod gwanwyn 2011. Gwiriwch yr holl wybodaeth gyda'r brifysgol benodol a/neu UCAS cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

